YSGOL BRYNREFAIL

ANTUR WAUNFAWR
yn YSGOL BRYNREFAIL

Ar ddechrau'r flwyddyn ysgol newydd fe gyrhaeddodd y Banc Dillad yn Ysgol Brynrefail. Mae Caergylchu yn gynllun sy'n anelu i leihau gwastraff, ac annog ail-ddefnyddio ac ailgylchu o fewn ardal Arfon yn bennaf. Mae'n bartneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd, Cwmni Gwastraff Môn ac Arfon (CGMA) ac Antur Waunfawr Ailgylchu (AWA) ac y mae Ysgol Brynrefail yn falch o'r cyfle i fod yn rhan o'r datblygiad. Mae hefyd yn fodd o godi arian i goffrau'r Ysgol ac i Antur Waunfawr.

Sut fedrwch chi ein helpu? Wel, mae'r Banc yn derbyn dillad, tyweli, cynfasau, blancedi, llenni ac esgidiau ac os ydych am gefnogi, a wnewch chi, os gwelwch yn dda, roi eich cyfraniadau mewn bagiau plastig yn y Banc. Diolch yn fawr iawn am bob cefnogaeth i'r Ysgol ac i'r Antur.